Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

# Adroddiad Blynyddol

## Ebrill 2020-Mawrth 2021

### Ysbrydoli Arweinwyr - Cyfoethogi Bywydau

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Cynnwys


3 Amdanom Ni
5 Datganiad gan y Prif Weithredwr
6 Ein Pobl
7 Ein Cymdeithion
8 Adolygiad o’r Flwyddyn
9 Arweinyddiaeth System
9 Sicrhau Ansawdd
10 Arloesi
11 Partneriaethau Rhyngwladol
12 Gwaith Comisiwn
12 Canllawiau Arwain Dysgu Proffesiynol
12 Cyfres Mewnweledlad
12 Datgloi Arweinyddiaeth
13 Lles
14 Datganiadau Ariannol
15 Y Flwyddyn i Ddod




## Amdanom Ni

Cenhadaeth yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yw "Ysbrydoli Arweinwyr - Cyfoethogi Bywydau" gyda'r nod o ddod ag eglurder a chydlyniaeth i arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru. Drwy ein gwaith, byddwn yn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu ymgysylltu gyda’r dysgu proffesiynol mwyaf perthnasol, ystyrlon ac ysbrydoledig.


Mae’r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi’i seilio ar weledigaeth gref, ac mae cyfres o werthoedd ac egwyddorion craidd yn sail iddi sydd wedi’u datblygu ar y cyd gan y sector. Wrth wraidd y weledigaeth hon mae ymrwymiad i sicrhau bod gan bob arweinydd yn y system addysg fynediad at gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth o safon uchel sy’n diwallu eu hanghenion lle bynnag y maent, a waeth pa gam y maen nhw yn eu gyrfa a’u huchelgeisiau. Rydym yn canolbwyntio ar alluogi arweinyddiaeth dysgu ac rydym yn dangos hyn drwy ymgorffori ein gwerthoedd ym mhopeth a wnawn.

**CYDWEITHREDOL**
Fel sefydliad bach, ni fyddwn yn cyflawni dim byd wrth weithio ar ein pen ein hunain. Yn hytrach, partneriaethau agos gyda’r proffesiwn a gyda sefydliadau cyfoedion yn yr haen ganol fydd ein dull diofyn o weithio

**SEFYDLIAD DYSGU**
Bydd yr Academi Arweinyddiaeth yn adolygu ac yn addasu ei gwaith yn seiliedig ar ganfyddiadau Fframwaith Canlyniadau a Thystiolaeth

**CYNHWYSOL**
Byddwn yn gweithio gyda’r holl arweinwyr addysgol ac ar eu rhan, waeth beth fo’u lleoliad, y sector, y cyfnod gyrfa, cefndir daearyddol ac a oes ganddynt rôl arweinyddiaeth ffurfiol neu anffurfiol. Byddwn yn annog arweinwyr o bob cefndir i ddatblygu galluoedd arwain

**O DDIFRIF AM LES**
Mae arweinyddiaeth effeithiol yn ffynnu pan gefnogir lles arweinwyr. Byddwn yn blaenoriaethu lles pob gweithiwr proffesiynol, gan gynnwys ein staff ein hunain a’n Cymdeithion




**CENEDLAETHOL**
Byddwn yn gweithio ledled Cymru

**SEFYDLIAD SY’N GWRANDO**
Mae clywed a rhoi llais i’r proffesiwn wrth wraidd ein gwaith a bydd safbwyntiau, profiadau a barn broffesiynol arweinwyr addysgol yn llywio popeth a wnawn

**HYD BRAICH**
Fel sefydliad sydd wedi’i alinio’n strategol â Llywodraeth Cymru ac yn rhan o’r diwygiadau pwysig sydd ar y gweill ym maes addysg Gymreig, bydd yr Academi Arweinyddiaeth yn gyfrannwr cadarnhaol sy’n gallu herio, yn ogystal â hwyluso, natur a llwybr polisi arweinyddiaeth

**HYBLYG**
Bydd y tirlun addysg yng Nghymru yn parhau i newid a bydd yr Academi Arweinyddiaeth yn addasu ei dull strategol, ei ffyrdd o weithio a dosbarthiad adnoddau i adlewyrchu heriau a chyfleoedd newydd

Mae pob arweinydd yn manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol arloesol, teg ac o ansawdd uchel, waeth beth fo’u lleoliad, y sector, y cyfnod gyrfa ac a oes ganddynt rôl arweinyddiaeth ffurfiol neu anffurfiol

Mae arweinyddiaeth system effeithiol yn ysgogi hunan-welliant, gyda gweithwyr proffesiynol yn cydweithio ac yn arwain y tu hwnt i strwythurau sefydliadol, rhwng haenau ac ar draws sectorau

Mae canllawiau arweinyddiaeth o ansawdd uchel sy’n benodol i Gymru, wedi’u llywio gan y dystiolaeth orau o Gymru ac yn rhyngwladol, yn helpu gweithwyr proffesiynol i herio a gwella eu dulliau eu hunain o arwain yn barhaus

Mae lles arweinwyr yn cael ei flaenoriaethu a’i gefnogi’n systematig, gan greu gweithlu arweinyddiaeth gynaliadwy a gwydn

Ac mae arweinyddiaeth wedi’i wreiddio fel maes blaenoriaeth hirdymor i lunwyr polisi addysg sy’n para cylchoedd gwleidyddol



> Mae hi wedi bod yn flwyddyn heb ei thebyg i bawb, ac mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi gwneud cyfraniad at y gwaith o gefnogi arweinwyr a datblygu arweinyddiaeth ar draws y sector addysgol.
>
> Tegwen Ellis, Prif Weithredwr

## Datganiad gan y Prif Weithredwr



**Wrth i ni fyfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf, blwyddyn sydd wedi bod heb ei thebyg i bawb, rydym yn ystyried pa gyfraniad mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi'i wneud o ran cefnogi arweinwyr a datblygu arweinyddiaeth ar draws y sector addysgol.**

Oherwydd y Pandemig Byd-eang – COVID-19, symudodd staff yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol allan o swyddfa Abertawe ym mis Mawrth 2020 ac addasu i weithio o bell o'u cartrefi, ac maent yn cyflawni ei fusnes craidd yn gyfan gwbl ar-lein erbyn hyn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi penodi dau aelod o staff llawn amser i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, sef Mark Isherwood fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd a Charlotte Thomas fel Rheolwr Cyfathrebu, gan gynyddu nifer y staff i bump. Croesawyd tri secondai i'r sefydliad hefyd i weithio ar Arloesi a Lles, Datblygu Arweinyddiaeth mewn Ysgolion a Datblygu Arweinyddiaeth yn y Sector Ieuenctid. Mae pob un o'n tri secondai wedi ychwanegu capasiti yr oedd mawr ei angen ar y sefydliad, ac mae'r twf yn y meysydd hyn i'w ganmol.

Lansiwyd ein cyfres Arloesi gyntaf gyda'r Athro Andrew Penaluna a gefnogodd arweinwyr i ystyried y grefft o chwilfrydedd ac arloesi wrth gynllunio Cwricwlwm i Gymru. Gwnaethom ariannu 14 o brosiectau datblygu arweinyddiaeth arloesi, a oedd yn cynnwys clystyrau a rhwydweithiau o ysgolion ledled Cymru, yn ogystal ag un Awdurdod Lleol. Ailgynlluniwyd ein proses Sicrhau Ansawdd hefyd a arweiniodd at Gymeradwyo a Monitro yn symud ar-lein, gyda phedair darpariaeth arall yn cael eu cymeradwyo i gefnogi arweinwyr ar bob lefel. Cynhaliwyd ein cynhadledd ar-lein gyntaf hefyd, gan ganolbwyntio ar les arweinwyr, gan atgyfnerthu ein gwerth ein bod ni o ddifrif ynghylch blaenoriaethu lles arweinwyr.

Mae ein cyfres Datgloi Arweinyddiaeth a dreialwyd gennym gyda'n Cymdeithion wedi mynd o nerth i nerth, gyda siaradwyr cenedlaethol a rhyngwladol o safon uchel yn ymgysylltu ag arweinwyr o bob cwr o Gymru ac ar draws pob sector addysgol.

Yn dilyn yr arolwg o arweinwyr ysgolion yr haf diwethaf, pan ofynnwyd am eu lles, sefydlwyd gweithgor y Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Lles Arweinwyr sy'n cynnwys partneriaid o'r haen ganol (cynrychiolwyr Estyn, CGA, Rhanbarthau ac Awdurdodau Lleol) yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru, Academyddion Addysgol, Cymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac Ymgynghorwyr Iechyd. Hefyd, mewn ymateb uniongyrchol i'r arolwg, sefydlwyd Pen-i-Ben, sef platfform digidol a chyfrinachol i benaethiaid ddod at ei gilydd am hanner awr yr wythnos i roi blaenoriaeth i'w lles eu hunain.

Mae'r Cymdeithion o bob un o'r tair carfan wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau y tu hwnt i'w lleoliad eu hunain, er eu bod yn wynebu heriau dyddiol y pandemig yn eu hysgolion. Maent wedi gweithio ar y cyd o fewn eu rhwydweithiau eu hunain a ledled y wlad drwy rolau hwyluso, hyfforddi a chynghori, gan fynychu amrywiaeth o gyfarfodydd gyda'r haen ganol a Llywodraeth Cymru mewn gweithgorau a phwyllgorau. Mae Carfan 2 a Charfan 3 wedi bod yn ymwneud ag ymchwil eleni, ac rydym yn falch o rannu'r comisiwn o Garfan 2, sy'n fyw ar ein gwefan.

Wrth inni ddod i ddiwedd y flwyddyn hon bydd ein carfan gyntaf o Gymdeithion wedi cwblhau tair blynedd yn y rôl a byddant bellach yn dod yn Gymdeithion Alumni yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniad o ran cefnogi gwaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, yn enwedig yn ei blynyddoedd ffurfiannol. Rydym yn gobeithio y bydd yr holl Gymdeithion yn parhau i gefnogi arweinwyr ac arweinyddiaeth yn y system ehangach ac y byddant yn parhau i fod yn llysgenhadon i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.

**Tegwen Ellis, Prif Weithredwr**

## Ein Pobl

**Dan arweiniad y Prif Weithredwr, mae gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol dîm gweithredol bach sydd â chyfrifoldebau sy'n cyfateb i'r tri maes blaenoriaeth a nodir yn ein llythyr cylch gwaith. Mae proffiliau llawn yr aelodau staff i'w gweld ar y wefan.**

Mae'r Bwrdd yn goruchwylio cyfeiriad strategol y sefydliad ac mae'n cynnwys unigolion sydd â phrofiad helaeth ac amrywiol yn y maes addysg a thu hwnt. Mae manylion llawn aelodau presennol y bwrdd i'w gweld ar y wefan.

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn penodi carfan flynyddol o Gymdeithion, gyda phob un yn uwch arweinydd addysgol cyfredol, sy'n gweithio gyda ni'n ffurfiol am gyfnod penodol o flwyddyn yn y lle cyntaf gyda'r posibilrwydd o ail flwyddyn. Mae'r Cymdeithion yn rhoi cyfle i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol gael mynediad at eu harbenigedd a'u gwybodaeth fel arweinwyr addysgol cyfredol sy'n sicrhau bod llais y proffesiwn yn cael ei glywed yn ein holl waith cynllunio, ein gweithgarwch a'n myfyrio. Mae'r Cymdeithion yn cynrychioli amrywiaeth o leoliadau ysgol ledled Cymru, gan gynnwys ysgolion ffydd, cyfrwng Cymraeg, bach, gwledig a ffederal. Mae manylion llawn y Cymdeithion presennol i'w gweld ar y wefan.

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn gallu cael mynediad at syniadau, cymorth a deialog o'r system addysg yn ei chyfanrwydd hefyd drwy ei grŵp rhanddeiliaid. Mae aelodau'r grŵp yn helpu'r sefydliad i:

- Ddylanwadu ar syniadau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol
- Cefnogi a herio gwaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol – gan wella prosesau cymeradwyo a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwaith ymchwil a chomisiynu
- Sicrhau bod arweinwyr ar draws y sectorau addysg yn teimlo bod yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn eu cynrychioli, a'i bod yn eiddo iddyn nhw

## Ein Cymdeithion

### CARFAN 1

**Christine Jackson**
Ysgol Gynradd Glasllwch, Casnewydd, NP20 3RH

**Jeremy Griffiths**
Ysgol Gynradd Gwynedd, Flint, CH6 5DL

**Sue Roberts**
Ysgol Ffordd Dyffryn, Llandudno, LL30 2LZ

**Clive Williams**
Ysgol Gymraeg Aberystwyth, Aberystwyth, SY23 1HL

**Jan Waldron**
Ysgol Calon Cymru, Powys, LD2 3BW

**Karen Lawrence**
Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfaes, Powys, LD3 8EB

**Janet Hayward**
Ysgolion Cynradd Cadoxton a Oak Field, Barri, CF63 2JS

**Emma Coates**
Ysgol Gynradd Llanhari, Pontyclun, CF72 9LQ

**Huw Powell**
Ysgol Uwchradd y Fair Ddihalog, Caerdydd CF5 5QZ

### CARFAN 2

**Trefor Jones**
Ysgol y Creuddyn, Llandudno, LL30 3LB

**Tania Rickard**
Ysgol T. Gwynn Jones, Bae Colwyn, LL29 9UA

**Richard Monteiro**
Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor, Sir Ddinbych, LL16 4EY

**Ian Gerrard**
Ysgol Aberconwy, Conwy, LL32 8ED

**Damien Beech**
Pennaeth yr Tîm Cyfnod Cynradd, Abertawe

**Roger Guy**
Ysgol Gynradd Gilwern, Y Fenni, NP7 0AY


**Paul Keane**
Ffederasiwn Ysgolion Cymuned Blenheim Road ac Ysgol Gynradd Coed Eva, Cwmbrân, NP44 4SZ

**Karen Watham**
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Merthyr Tydfil CF47 8HA

**Sarah Coombes**
Ysgol Gynradd Llanishen Fach, Caerdydd, CF14 6SS

**Kelvin Law**
Ysgol Gynradd Romilly, Barri, CF62 6LF

**Dr Suzanne Sarjeant**
Ysgol Gynradd Pencoed, Pen-y-Bont, CF35 6RH



### CARFAN 3

**Catrin Thomas**
Ysgol Gynradd Aberaeron, Aberaeron, SA46 0BQ

**Simon Roberts**
Ysgol Gynradd ac Uned Anghenion Arbennig Maesybryn, Pontypridd, CF38 2NS

**Alison Ellis**
Ysgol Gynradd Maesyrhandir, Y Drenewydd, SY16 1LQ

**Kerina Hanson**
Ysgol Gynradd Pennard, Abertawe, SA3 2AD

**Justine Baldwin**
Ysgol Gynradd Trallwng, Y Trallwng, SY21 7EJ

**Sharon Hope**
Ysgol Gynradd Clase, Abertawe, SA6 7JX

**Dr Joe Cudd**
Ysgol Pen Rhos, Llanelli, SA15 2NG

**Olwen Corben**
Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Ceiriog, Llanarmon Dyffryn Ceiriog, Ysgol Cynddelw, Llangollen, LL20 7LB

**Marc Jones**
Ysgol Pen Barras, Ruthin, LL15 1QQ

**Dr Llinos Jones**
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, Caerfyrddin, SA32 8DN

## Adolygiad o’r Flwyddyn

### SICRHAU ANSAWDD A CHYMERADWYO

**19 cais am gymeradwyaeth wedi'u cyflwyno gan 12 darparwr**

Symud i alwadau agored am gymeradwyaeth er mwyn annog portffolio ehangach o ddarpariaeth a gymeradwywyd er mwyn bodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru

Cynyddu'r ddarpariaeth a gymeradwywyd i gynnwys uwch arweinwyr

### LLES

**Yr Arolwg Cenedlaethol o Les Arweinwyr Ysgolion wedi'i gyhoeddi, gyda thros 1,000 o ymatebion gan arweinwyr ledled Cymru**

Pen-i-Ben wedi'i lansio, gan ddarparu gofod lles wythnosol i benaethiaid

Y Gynhadledd Ar-lein gyntaf wedi'i chynnal, gan ganolbwyntio ar les gyda thros 100 o fynychwyr

Yr Arolwg Lles Arweinwyr wedi'i gynnal gyda'r Sector Gwaith Ieuenctid

### Y GYFRES MEWNWELEDIAD WEDI'I LANSIO, GYDA 2 BAPUR YN CAEL EU RHYDDHAU

Yr Athro Alma Harris,
*Arweinwyr Systemau ac Arweinyddiaeth Systemau: Adolygu’r Dystiolaeth*

Gareth Evans,
*Gwerth Wythnosau Ysgol Anghymesur: Gwersi a Ddysgwyd gan Ysgolion yng Nghymru*

### ARWEINYDDIAETH SYSTEM: CYMDEITHION YR ACADEMI

**Carfan 1**
Gweithredu fel arweinwyr system y tu hwnt i’w lleoliad eu hunain

**Carfan 2**
Ymchwilio a chyd-awduro eu comisiwn

**Carfan 3**
Cyfnod sefydlu a phrofiadau dysgu wedi'u cyflawni

### ARLOESI

**17 o sefydliadau wedi'u cefnogi drwy'r Llwybr Arloesi**

Cyfres 1 o sesiynau arloesi wedi'i chyflwyno gyda'r Athro Andrew Penaluna i dros 70 o gyfranogwyr ledled Cymru

Dwy ddarpariaeth a ariannwyd yn 2019-2020 drwy'r llwybr arloesi wedi'u cyflwyno i'w cymeradwyo yn 2020-2021

### CYFATHREBU A GWEITHGAREDDAU DIGIDOL

**Datblygu gwefan newydd i'w lansio ym mis Mai 2021**

E-gylchlythyr misol Cyswllt wedi'i lansio

Mwy o ymgysylltu a phresenoldeb digidol

Podlediad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi'i lansio, gyda 9 pennod hyd yma

Tair cyfres o weminarau Datgloi Arweinyddiaeth wedi'u cyflwyno, gydag 13 o siaradwyr a thros 800 o fynychwyr o bob cwr o Gymru

### ADEILADU PARTNERIAETHAU

**Blether Rhyngwladol cyntaf y Tair Gwlad gyda chynrychiolwyr o Addysg yr Alban a Chanolfan Arweinyddiaeth Ysgolion Iwerddon**

Dod ag arweinwyr o bob rhan o Gymru ynghyd ac ehangu y tu hwnt i'r sector ysgolion

## Arweinyddiaeth System

Mae datblygu 'arweinwyr system' ac 'arweinyddiaeth system' effeithiol yn ganolog i'r daith diwygio addysg a ddisgrifir yn Cenhadaeth Ein Cenedl ac mae wrth wraidd y gwaith rydym yn ei wneud yng Nghymru drwy ein model Cymdeithion blaenllaw.

Mae ein Cymdeithion yn rhoi cyfleoedd i’r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol fanteisio ar eu harbenigedd a’u gwybodaeth fel arweinwyr addysgol presennol, adnodd amhrisiadwy sy’n sicrhau bod gan y proffesiwn lais yn ein holl gynlluniau, gweithgarwch a myfyrio. Penodwyd trydedd garfan o benaethiaid profiadol o safon uchel yn llwyddiannus i'r rôl ar 1 Ebrill 2020. Mae'r 10 Cydymaith yn cynrychioli’r sector Cynradd ac Uwchradd, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ac yn cynrychioli cwmpas daearyddol ledled Cymru gyda Chymdeithion yn nhri o’r pedwar consortiwm rhanbarthol.

Mae pob un o'r 30 Cydymaith yn cyfrannu at waith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn wythnosol drwy hyfforddi a mentora, cefnogi lles, cymryd rhan mewn gweithgareddau Sicrhau Ansawdd (cymeradwyo a monitro blynyddol), sesiynau arloesi a hwyluso. Mae'r Cymdeithion yn cyfrannu at y system ehangach hefyd, gan weithredu fel cynrychiolwyr ar dros 30 o grwpiau allanol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol megis Bwrdd Gweithredol Llywodraeth Cymru, Bwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon, y Grŵp Dysgu Proffesiynol a Chydweithio, Grŵp Arweinyddiaeth y Consortia Rhanbarthol a grwpiau penaethiaid Awdurdodau Lleol.

Eleni, mae Cymdeithion o Garfanau 1 a 2 wedi cwblhau'r Rhaglen Hyfforddiant Weithredol Uwch gan Chrysalis Mindset Coaching ac wedi bod yn darparu hyfforddiant i Gymdeithion o'r drydedd Garfan. Mae'r ddarpariaeth hon wedi’i chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Mae Cymdeithion Carfan 2 wedi parhau â'u comisiwn, *Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth wireddu gweledigaeth Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus?* Bydd adroddiad y comisiwn, ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn cael eu cyhoeddi a'u lansio yn 2021/2022.

Oherwydd COVID-19, symudwyd Profiadau Dysgu eleni ar-lein. Cynlluniodd Cymdeithion Carfan 1 y profiadau gyda Chymdeithion Carfan 2, gan hwyluso'r sesiynau ar gyfer Carfan 3. Roedd y Profiadau Dysgu’n cynnwys seminarau gyda'r Gweinidog Addysg Kirsty Williams AS, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Meilyr Rowlands a Lucy Crehan. Mae Carfan 3 wedi bod yn gweithio gyda'r Athro David Egan hefyd i gynnal ymchwil ar y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol i baratoi ar gyfer eu hadroddiad comisiwn yn 2021/2022.

## Sicrhau Ansawdd

Mae ein proses Sicrhau Ansawdd yn cynnwys adolygiad systematig o'r ddarpariaeth bresennol o ran datblygu arweinyddiaeth yng Nghymru. Drwy broses gymeradwyo a fframwaith monitro dau gam trwyadl a chadarn, rydym yn cynnal ac yn cefnogi darpariaeth sydd o safon uchel, yn deg ac yn addas i'r diben.

Darparwyd hyfforddiant Sicrhau Ansawdd ar gyfer cymeradwyo a monitro i Gymdeithion ac aelodau grwpiau rhanddeiliaid, gyda thros 30 yn cwblhau hyfforddiant llawn neu hyfforddiant diweddaru fel y bo'n briodol.

Cynhaliwyd Sicrwydd Ansawdd o'r broses gan gydweithwyr o'r Canolfan Arweinyddiaeth Ysgolion Iwerddon.

### Cymeradwyo

Diben cymeradwyo yw sicrhau y gellir cydnabod y ddarpariaeth datblygu arweinyddiaeth fwyaf effeithiol sydd ar gael ar hyn o bryd. Nod cymeradwyo yw sicrhau mynediad teg at ddarpariaeth datblygu arweinyddiaeth o safon uchel ledled Cymru.

Yn dilyn galwad agored am gymeradwyo darpariaeth arweinyddiaeth ym mis Chwefror 2021, cawsom 19 o geisiadau gan 11 o ddarparwyr. Cynhaliwyd paneli cymeradwyo i asesu pob cais ac rydym yn falch o adrodd bod y rhaglenni newydd canlynol wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo a bennwyd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol:

- Gyrfa Cymru - Arweinyddiaeth Gyrfaoedd
- Chrysalis Mindset Coaching - Rhaglen Cryfder Meddwl
- Mindfulness in Action - Ymwybyddiaeth Ofalgar mewn Addysg
- Consortia Rhanbarthol yng Nghymru - Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr

### Monitro

Yn dilyn y broses fonitro flynyddol a arweinir gan gymheiriaid i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau o safon uchel, rydym yn falch o adrodd bod y rhaglenni canlynol yn parhau i fodloni'r meini prawf llwyddiant a nodir yn y canllawiau cymeradwyo:

- Chrysalis Mindset Coaching - Rhaglen Hyfforddi Weithredol Uwch
- OLEVI - Arweinyddiaeth Eithriadol mewn Addysg
- Portal Training - Prentisiaeth Uwch mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Consortia Rhanbarthol yng Nghymru - Rhaglen Penaethiaid Newydd a Dros Dro a Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol



Mae gen i fwy o hyder yn fy nghredoau a'm dealltwriaeth fy hun o faterion allweddol, gan fy ngwneud yn fwy rhagweithiol yn fy rôl fel arweinydd system

Cydymaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

## Arloesi

Mae arweinwyr addysgol yng Nghymru yn gweithredu o dan amgylchiadau heriol, anrhagweladwy ac yn deall bod systemau, offer a meddwl arloesol yn hanfodol. Cynlluniwyd ein Llwybr Arloesi a'n Cyfres Arloesi i hyrwyddo arweinyddiaeth arloesol, gan greu syniadau newydd ac ysgogi meddwl a gweithredu arloesol.

Roedd y Gyfres Arloesi yn cynnwys saith gweithdy ar-lein a gynhaliwyd rhwng mis Medi 2020 a mis Ionawr 2021. Roedd y gweithdai'n cynnwys sesiynau theori dan arweiniad yr Athro Andrew Penaluna ac ystafelloedd trafod lle gallai mynychwyr gynnal deialog broffesiynol â chymheiriaid. Defnyddiwyd tasgau rhyngsesiynol i ddyfnhau'r ddealltwriaeth o arloesi, atgyfnerthu dysgu a neilltuo amser i fyfyrio. Defnyddiodd un ar ddeg o fynychwyr (neu grwpiau o fynychwyr) y gweithdai i gefnogi ymhellach y gwaith o gynllunio rhaglenni arweinyddiaeth, a gyflwynwyd ganddynt ar gyfer cyllid arloesi. Roedd naw cais yn llwyddiannus o ran derbyn y cyllid.

Ers lansio'r Llwybr Arloesi, mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi ariannu 28 o brosiectau i gefnogi darparwyr i greu dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu arweinyddiaeth addysgol. Mae naw prosiect wedi'u cwblhau hyd yma ac adroddiadau effaith terfynol wedi'u darparu. O'r naw prosiect, gwnaeth dau ddarparwr gais am gymeradwyaeth, gydag un darparwr yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Mae pob prosiect arall yn parhau ac wedi darparu adroddiadau cynnydd yn unol â hynny.



## Partneriaethau Rhyngwladol

### Consortiwm Arweinyddiaeth y Tair Gwlad

Mae ein partneriaeth ag Addysg yr Alban a Chanolfan Arweinyddiaeth Ysgolion, Iwerddon yn parhau i ddatblygu.

Ar lefel strategol, caiff cyfeiriad corfforaethol y sefydliad ei archwilio a'i herio gan Gyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol y Tair Gwlad drwy systemau adolygu gan gymheiriaid.

Mae'r Alban ac Iwerddon yn gwneud cyfraniad o ran sicrhau ansawdd y broses Gymeradwyo ar gyfer darpariaeth ac yn cynnig gwybodaeth werthusol am gryfderau a meysydd datblygu'r broses. Bydd yr wybodaeth hon yn llywio newidiadau yn ein proses Sicrhau Ansawdd y flwyddyn nesaf.

Roeddem yn falch iawn o weithio gyda'n partneriaid i gyflwyno digwyddiad Blether (Gaeleg yr Alban), Comrhá (Gwyddeleg), Sgwrs (Cymraeg).

Cyflwynwyd y Blether yn nhymor yr hydref ac roedd yn cynnwys arweinwyr o'r tair gwlad, gyda ffocws ar sut roeddent wedi darparu ar gyfer eu lles eu hunain yn ogystal â lles pobl eraill yn ystod y pandemig.

Bydd yr ail Blether yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2021, gyda'r teitl 'Addasu fel Arweinydd – Symud ymlaen'. Bydd y chwe arweinydd o'r tair gwlad yn rhannu sut maent wedi addasu eu harddull a'u hymagwedd at arweinyddiaeth, o arwain mewn argyfwng yn ystod y pandemig i ddatblygu arweinyddiaeth gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Blethers yn gyfle i arweinwyr o'r tair gwlad wrando ar eu profiadau a gofyn cwestiynau dilynol.

### COVID-19

Ers 16 Mawrth 2020, mae busnes yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi symud ar-lein yn llwyr. Mae'r holl staff a secondeion yn parhau i weithio gartref yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru.

### UNESCO

Fel rhan o Ddiwrnod Athrawon y Byd yn 2020, cymerodd ein Prif Weithredwr Tegwen Ellis ran mewn gweminar ar gyfer cyfryngau newid o'r enw 'the emergence of professional learning leaders at the middle tier of education systems'. Cafodd y sesiwn ei chyd-gynnal gan IIEP-UNESCO, UNESCO a'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg. Archwiliodd duedd ddiddorol mewn arweinyddiaeth addysg: y cynnydd mewn ymarferwyr arbenigol – megis Penaethiaid – yn cael dyrchafiad i rolau arwain ar lefel haen ganol, gan weithio ar draws amryw o ysgolion ac ardaloedd i wella addysgu a dysgu.

Rhannwyd model y Cymdeithion, sy'n Benaethiaid eu hunain yn gweithio fel arweinwyr system y tu hwnt i'w hysgolion eu hunain i gefnogi arweinwyr ysgolion i wella eu hymarfer.

### Casglu Tystiolaeth Ryngwladol

Mae Cymdeithion o Garfan 3 wedi bod yn archwilio'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol ochr yn ochr â'r Athro David Egan. Prif ffocws y comisiwn hwn oedd ymchwilio i ddulliau addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel rhan o DNA ysgol, ynghyd ag ymchwil yn gysylltiedig â dysgu proffesiynol. Yr amcanion allweddol oedd casglu tystiolaeth gan wahanol ysgolion ymchwil yn Lloegr gyda'r Sefydliad Gwaddol Addysg (EEF) i ystyried y dulliau a nodir yn y rhwydwaith ysgolion ymchwil, i chwilio am enghreifftiau rhyngwladol ac i ymchwilio i sut y defnyddiodd proffesiynau eraill ymchwil i wella fel sefydliadau. Fel rhan o'r gwaith comisiwn hwn, gwnaeth carfan 3 ymweliadau rhithwir ag ysgolion yn Lloegr i gasglu tystiolaeth ochr yn ochr ag ystyried arferion ymchwil mewn ysgolion yng Nghymru ac archwilio arferion ymchwil yn Seland Newydd.

## Gwaith Comisiwn

**Roedd y Cymdeithion o Garfan 2, er gwaethaf y pandemig, wedi gallu parhau â'u gwaith craffu a dadansoddi data fel rhan o'u gweithgarwch comisiwn:**

*Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth wireddu gweledigaeth Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus?*

Cynhyrchodd y Cymdeithion ddarn meddwl dros dro a rannwyd ganddynt gyda rhanddeiliaid yn y system ac, yn dilyn adolygiad o'r ddogfen hon, aethant ati i greu e-ddogfen. Roedd y ddogfen wedyn yn rhan o banel craffu ffurfiol a oedd yn cynnwys Aled Roberts (Comisiynydd y Gymraeg), Gareth Evans (Cyfarwyddwr Polisi Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant), Debbie Harteveld (Rheolwr Gyfarwyddwr Consortia Rhanbarthol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg), Dr Andrew Davies (Prifysgol Aberystwyth) ac Emmajane Milton (Prifysgol Caerdydd).

## Canllawiau Arwain Dysgu Proffesiynol

Comisiynodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yr Athro Ken Jones i ysgrifennu papur ymchwil ar Arwain Dysgu Proffesiynol fel rhan o'i waith yn darparu canllawiau penodol o safon uchel i Gymru. Mae'r papur yn cynnwys y dystiolaeth orau yn rhyngwladol ac yn nodi 12 dilysnod ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol o safon uchel i wella addysgu a dysgu. Bydd y papur yn cael ei lansio yn hydref 2021 fel rhan o'r Gyfres Mewnwelediad a bydd yn ategu'r gwaith parhaus o gynllunio adnodd pwrpasol i gefnogi arweinwyr i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol rhagorol.

Yn ogystal â'r papur academaidd, cynhaliodd OB3 ymchwil yn y maes ac mae wedi cynhyrchu sawl astudiaeth achos sy'n dangos 10 dilysnod dysgu proffesiynol.

## Cyfres Mewnwelediad

Lansiodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ei Chyfres Mewnwelediad gyda phapur academaidd gan yr Athro Alma Harris, *Arweinwyr Systemau ac Arweinyddiaeth Systemau: Adolygu'r Dystiolaeth*. Mae'r papur yn adolygiad rhyngwladol o'r llenyddiaeth sy'n canolbwyntio ar arweinwyr system ac arweinyddiaeth system ac mae'n ystyried y sylfaen dystiolaeth o'r degawd diwethaf. Lansiwyd y papur yn dilyn gweminar gyda Chymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, a'r ddogfen hon sydd wedi cael ei lawrlwytho fwyaf o'n gwefan. Daw'r papur i ben gyda rhestr o argymhellion ar gyfer y system a hefyd ar gyfer y Cymdeithion.

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn falch hefyd o fod wedi cynnwys yn ei Gyfres Mewnwelediad adolygiad gan Gareth Evans, *Gwerth Wythnosau Ysgol Anghymesur: Gwersi a Ddysgwyd gan Ysgolion yng Nghymru*. Cefnogwyd y papur hwn gan ddigwyddiad 'mewn sgwrs' a gynhaliwyd ar gyfer penaethiaid o ysgolion ledled Cymru.

## Datgloi Arweinyddiaeth

Cyflwynodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ei chyfres Datgloi Arweinyddiaeth gyntaf yn ystod y cyfnod clo cyntaf i'w thair carfan o Gymdeithion. Cynlluniwyd y gyfres o weminarau a gyflwynwyd fel cynllun peilot i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i'r Cymdeithion pan ganslwyd seminarau dysgu proffesiynol wyneb yn wyneb a chyfleoedd ymarfer cydweithredol. Roedd y gyfres gyntaf o weminarau'n cynnwys y siaradwyr canlynol o safon uchel; yr Athro Stephen Heppell, Syr Tim Brighouse, John West-Burnham, a daeth i ben gyda gweminar gan yr Athro Mick Waters a aeth ati i grynhoi'r negeseuon allweddol gan y tri siaradwr.

Dechreuodd y weminar gyda chyflwyniad 40 munud gan y siaradwr, gyda thrafodaethau ystafell drafod i ddilyn gydag arweinwyr o bob cwr o Gymru yn dod ynghyd i drafod cynnwys y weminar. Yna, cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb a hwyluswyd gan Gydymaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Daeth y weminar i ben gyda chrynodeb gan y siaradwr.

Yn dilyn gwerthusiad o'r gyfres Datgloi Arweinyddiaeth (a ddangosodd fod y system yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu â chyfleoedd dysgu proffesiynol o'r math hwn yn ystod y pandemig), cafodd yr ail gyfres ei lansio a'i chynnig i arweinwyr ysgolion y tu hwnt i'r Cymdeithion. Roedd y siaradwyr ar gyfer yr ail gyfres Datgloi Arweinyddiaeth yn cynnwys yr Athro Stephen Heppell, yr Uwchgapten Marcus Heslop, yr Athro Laura McAllister a'r Athro Mick Waters.

Cynhaliwyd trydedd gyfres o Datgloi Arweinyddiaeth ar ddiwedd tymor y gwanwyn ac estynnwyd y gwahoddiad i gynrychiolwyr i gynnwys pob uwch arweinydd o bob lleoliad addysgol. Gwrandawodd yr arweinwyr ar Steve Munby, Dr Beatriz Pont, Dr Benna Waites a Dr Adrian Neal a Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi. Gwerth unigryw'r gweminarau dysgu proffesiynol hyn yw'r cyfle i arweinwyr addysgol o bob rhan o Gymru ac o bob math o sectorau ddod ynghyd a thrafod materion arwain.

Mae'r holl weminarau ar gael ar SoundCloud fel podlediadau erbyn hyn i'w defnyddio fel adnodd dysgu proffesiynol.



# Lles

## Arolwg Cenedlaethol o Les Arweinwyr Ysgolion

Cynhaliodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol arolwg cenedlaethol o les yn ystod haf 2020, a oedd yn agored i arweinwyr ysgolion. Cafwyd yr ymatebion yn ystod y cyfnod clo cyntaf COVID-19, ac nid oedd y goblygiadau lles pwysig yn rhan o ffocws yr arolwg ac ni chyfeiriodd unrhyw gwestiwn yn uniongyrchol ato. Cafwyd 1,000 o ymatebion i'r arolwg. Cafodd holl ddata'r arolwg ei ddadansoddi i nodi amrywiadau yn unol â nodweddion allweddol. Fodd bynnag, ychydig iawn o amrywiadau a ganfuwyd yn ôl daearyddiaeth, oedran, rôl neu leoliad. Dangosodd y canfyddiadau fod arweinwyr yn nodi mai bod yn hapus neu'n fodlon, bod yn iach a darparu ar gyfer eich teulu neu'r rhai agosaf atoch chi oedd y tair prif agwedd a oedd yn cyfrannu at les personol a phroffesiynol. Pan ofynnwyd i ymatebwyr pa ffactorau sy'n effeithio ar les arweinwyr, y tri phrif ateb oedd llwyth gwaith (75%), mesurau atebolrwydd (61%) a'r broses arolygu (50%). Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn ar nael.cymru.

## Adroddiad Arolwg Lles y Sector Gwaith Ieuenctid

Ym mis Chwefror 2021, cynhaliodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol arolwg o les arweinwyr yn y sector gwaith ieuenctid. Gwahoddwyd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ym mhob maes gwaith ieuenctid i ymateb i'r arolwg. Daeth yr ymatebion i law yn ystod yr ail gyfnod clo COVID-19. Nid oedd goblygiadau lles pwysig y pandemig yn rhan o ffocws yr arolwg ac nid oedd yr un cwestiwn yn cyfeirio ato. Cafwyd 25 ymateb i'r arolwg. Nododd yr ymatebwyr mai bod yn iach, teimlo'n hapus neu'n fodlon ac ymdopi â straen bywyd oedd y tair prif agwedd a oedd yn cyfrannu at eu lles personol a phroffesiynol. Dywedodd yr ymatebwyr mai llwyth gwaith (68%), cydnabod gwaith gan eraill (52%) a rheoli cyllid a chyllidebau (52%) oedd y tri phrif ffactor a oedd yn effeithio ar eu lles. Adroddiad llawn ar gael ar nael.cymru.

## Pen-i-Ben


Mewn ymateb i'r arolwg ysgolion, lansiodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol blatfform digidol, cyfrinachol lle mae penaethiaid yn dod ynghyd am hanner awr yr wythnos i gyfarfod mewn grwpiau bach i gefnogi eu lles eu hunain.

## Cynhadledd

Ym mis Ionawr 2021, cynhaliodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ei chynhadledd rithwir gyntaf ar-lein, gyda ffocws ar les arweinwyr. Mynychwyd y digwyddiad gan dros 100 o gynrychiolwyr. Roedd y siaradwyr a gyfrannodd at y gynhadledd yn cynnwys yr Athro Neil Frude – *Lles emosiynol arweinwyr ysgolion*, Tracey Jones, o Chrysalis Mindset, Dr Coral Harper – Mentora/Goruchwylio, Dr Rachel Lilley – *Rhagfarn Wybyddol Anymwybodol*, Jayne Woolcock, pennaeth Ysgol Gynradd Penllergaer, a Jenny Ford, pennaeth Ysgol Gyfun Treorci, a siaradodd am Les ac Arweinyddiaeth Gydweithredol. Daeth y digwyddiad i ben gyda'r Athro Mick Waters.

Mae recordiadau o'r gynhadledd ar gael ar-lein.

> **Mae cael gofod lles yn bwysig iawn. Mae'n dda siarad â phenaethiaid eraill ledled Cymru**
>
> Cyfranogwr Pen-i-Ben



## Datganiadau Ariannol

### Cyfrif Elw a Cholled ar gyfer diwedd y Flwyddyn 31 Mawrth 2021

| | 2021 £ | 2020 £ |
|---|---|---|
| Trosiant | 900,000 | 1,400,000 |
| Cost Gwerthiannau | (733,255) | (514,527) |
| Gwarged Gros | 166,745 | 885,473 |
| Treuliau Gweinyddol | (551,176) | (587,950) |
| Gwarged gweithredu | (384,431) | 297,523 |

Deilliodd y canlyniadau uchod o weithrediadau parhaus. Nid oes gan y cwmni unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig ar gyfer y cyfnod ac eithrio'r canlyniadau uchod

### Mantolen ar 31 Mawrth 2021

| | 2021 £ | 2020 £ |
|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog**<br>Asedau Diriaethol | 11,867 | 16,645 |
| **Asedau Cyfredol**<br>Dyledwyr<br>Arian yn y Banc ac mewn Llaw | 177,615<br>4,832 | 493,908<br>80,872 |
| | **574,780** | **243,813** |
| **Credydwyr:** Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | (15,139) | (27,819) |
| Asedau **cyfredol Net** | 167,308 | 546,961 |
| Asedau **Net** | 179,175 | 563,606 |
| **Cyfalaf ac wrth gefn**<br>Cyfrif elw a cholled | 179,175 | 563,606 |
| Cronfeydd cyfranddalwyr | 179,175 | 563,606 |

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r darpariaethau arbennig sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n destun y trefniadau cwmnïau bach yn Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021, roedd y cwmni wedi'i eithrio o ofynion Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 o dan adran 482 o'r Ddeddf hon (cwmnïau dielw sy'n destun archwiliad sector cyhoeddus). Yn lle hynny mae'n destun archwiliad sector cyhoeddus ac yn cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd gan y Bwrdd ar 11 Hydref 2021 a llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:

SDavies

Dr S Davies (Cyfarwyddwr)

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addyssgol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*

*For information the translation is 'The Auditor General for Wales has certified these accounts in their original form. This version is a translation of the original English version. The responsibility for the accuracy of this translation lies with National Academy for Educational Leadership Wales and not with the Auditor General.'*



## Y Flwyddyn i Ddod

### SICRHAU ANSAWDD A CHYMERADWYO

Parhad o alwadau agored am gymeradwyaeth er mwyn annog portffolio ehangach o ddarpariaeth wedi'i chymeradwyo er mwyn bodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru

### CYFRES MEWNWELEDIAD YN PARHAU, GAN RYDDHAU TRI PHAPUR

### ARLOESI

- Cyflwyno Cyfres Arloesi 2 i arweinwyr ledled Cymru
- Darpariaeth a ariennir drwy lwybr arloesi 2020-2021 yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo

### CYFATHREBU A GWEITHGAREDDAU DIGIDOL

- Lansio gwefan newydd
- Mwy o ymgysylltu a phresenoldeb digidol
- Mwy o amlygrwydd a phresenoldeb yn y sector
- Cyflwyno cyfres 4, 5 a 6 o weminarau Datgloi Arweinyddiaeth i arweinwyr o bob cwr o Gymru
- Lansio sianel Instagram

### LLES

- Datblygu Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Lles Arweinwyr Addysgol
- Cyhoeddi Adroddiad Arolwg Lles y Sector Gwaith Ieuenctid 2021
- Treialu sesiynau Pen-i-Ben gyda'r sector Gwaith Ieuenctid, Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol

### ARWEINYDDIAETH SYSTEM: CYMDEITHION YR ACADEMI

**CARFAN 1** Gweithredu fel Cymdeithion Alumni yr Academi Arweinyddiaeth ar draws y system addysg

**CARFAN 2** Cyhoeddi Adroddiad Comisiwn

**CARFAN 3** Gwaith Comisiwn

**CARFAN 4** Sefydlu ac ymgymryd â phrofiadau dysgu

### CANLLAWIAU

- Cyhoeddi adnodd Arwain Dysgu Proffesiynol

### ADEILADU PARTNERIAETHAU

- Dod ag arweinwyr o bob rhan o Gymru ynghyd ac ehangu y tu hwnt i'r sector ysgolion
- Mwy o ymgysylltu â sectorau eraill, yn enwedig gyda'r sector Ôl-16 a Gwaith Ieuenctid
- Cynnal digwyddiadau cydweithio gyda Chonsortiwm Arweinyddiaeth y Tair Gwlad a Chymdeithas Datblygu Proffesiynol Rhyngwladol Cymru
- Cyflwyno sioeau teithiol Llais Dros Gymru gydag arweinwyr ledled Cymru



**There's no denying the challenges we have all faced over the past 18 months. However, the Leadership Academy has gone from strength to strength maximizing all opportunities to engage with leaders across Wales through digital technology. The Leadership Unlocked sessions have been particularly, outward reaching, effective and engaging.**

Associate of the National Academy for Educational Leadership

**Does dim gwadu'r heriau rydyn ni i gyd wedi'u hwynebu dros yr 18 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi mynd o nerth i nerth, gan fanteisio i'r eithaf ar bob cyfle i ymgysylltu ag arweinwyr ledled Cymru drwy dechnoleg ddigidol. Mae'r sesiynau Datgloi Arweinyddiaeth wedi bod yn arbennig o eang eu cyrhaeddiad, yn effeithiol ac apelgar.**

Cydymaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

nael.cymru